

Cerdded fel deinosor – gwnewch eich traed deinosor eich hun

Gwneud ac addurno traed deinosor i'w gwisgo.

Canlyniadau dysgu

Children will:

Bydd plant:

- yn defnyddio eu sgiliau echddygol manwl (lliwio a thorri)
- yn defnyddio offer a deunyddiau i greu darn o wisg
- yn darllen a dilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig
- yn mwynhau bod yn greadigol a dysgu sgiliau crefft newydd
- yn dysgu cofio'r chwith a'r dde
- yn bod yn greadigol a chael syniadau am liw ac ansawdd traed deinosor gan gyfiawnhau'r syniadau hyn

Adnoddau angenrheidiol

Yn y pecyn Amgueddfa Hanes Natur mae:


- amlinellau traed deinosor

Bydd yr ysgol yn darparu:


- cerdyn tenau
- papur dargopïo a phensiliau i drosglwyddo patrwm os oes angen (gweler y nodyn isod)
- siswrn
- tyllwr
- rhuban neu linyr
- tâp gludiog
- pensiliau lliw, beiros, paent, papur print anifeiliaid, plu ac eitemau addurnol eraill i bersonoli

Noder: Gallwch naill ai ddefnyddio'r papur dargopïo a dechrau o'r dechrau ar gyfer gweithgaredd hirach ac ehangach sy'n seiliedig ar sgiliau, neu wneud hyn yn weithgaredd cyflymach drwy rag-argraffu pob un o'r traed deinosor fel y gellir eu torri allan a'u haddurno.

Traed *Hypsiloffodon*



Traed babi Dippy





Nodiadau athrawon

Cyfarwyddiadau:

- Dargopiwch amlinell troed y deinosor ar bapur dargopïo gyda phensil meddal.
- Trowch hwn drosodd ar ddarn o gerdyn tenau ac ewch dros y llinell yr ydych wedi'i gwneud yn ofalus. Dylai hyn drosglwyddo'r llinell i'r cerdyn.
- Yna, trowch y papur dargopïo drosodd eto ar ddarn o gerdyn newydd a thynnwch linell yn ofalus dros y llinell. Dylai hyn drosglwyddo'r llinell ar y cerdyn a rhoi delwedd ddrych i chi o'ch amlinell troed gyntaf. Bydd gwneud hyn yn rhoi troed chwith a throed dde i chi.
- Os ydych yn gwneud traed Dippy bydd angen i chi ailadrodd y ddau gam cyntaf, gan ei fod yn cerdded ar bedair coes!
- Nodwch pa droed yw pa un drwy eu cymharu â'r llun isod. Gallech chi ysgrifennu Chwith a De arnyn nhw mewn pensil i'ch atgoffa.
- Torrwch allan eich traed deinosor yn ofalus.
- Lapiwch dâp gludiog o amgylch y tabiau, yna torrwrch dwll yn y canol. Dyma lle bydd llinyn yn cael ei edafu.
- Nawr addurnwch eich traed deinosor.
- Ychwanegwch linyr trwy'r pigwrn a'r tabiau mewnol a chlymu'r traed deinosor yn ofalus dros esgidiau neu draed noeth.
- Nawr cerddwch fel deinosor!
- Gallech ddarparu deunyddiau fel y gallai addurniadau geisio ail-greu traed Dinosor yn gywir (e.e. defnyddio papur neu ffabrig gwedd croen ymlusgiad), neu greu traed hollol ddychmygus).
 - Gallech ychwanegu plu ar gyfer deinosor pluog.
 - Gallech chi ofyn i'r plant dynnu llun y deinosor cyfan mae'r traed maen nhw wedi'u gwneud yn perthyn iddo gan esbonio sut mae'n gweddu i'w gynefin.
 - Gallech wneud hwn yn weithgaredd cyflymach drwy ragargraffu'r holl draed deinosor fel y gellir eu torri allan a'u haddurno.
 - Gallech chi ofyn i blant gynnwys nodyn atgoffa am y chwith a'r dde i'w dyluniadau traed os ydyn nhw'n cael trafferth cofio hyn.

Cysylltiadau cwricwlwm Cymru (Cyfnod Sylfaen)

Datblygiad creadigol: Sgiliau

Celf, crefft a dylunio

- Dylai sgiliau plant ym maes celf, crefft a dylunio'r plant gael eu meithrin a'u hybu wrth iddynt ddefnyddio eu synhwyrâu, eu dychymyg a'u profiad. Dylai gweithgareddau celf, crefft a dylunio creadigol a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen alluogi plant i fynegi eu hunain yn rhydd a gwneud cynnydd o safbwynt eu gallu i:
- archwilio amrywiaeth o dechnegau a defnyddiau ac arbrofi â hwy
 - gwneud dewisiadau wrth ddewis defnyddiau ac adnoddau
 - cymysgu, siapio, trefnu a chyfuno defnyddiau er mwyn creu eu delweddau a'u gwrthrychau eu hunain sy'n cyfleu ac yn mynegi eu syniadau, eu teimladau a'u hatgofion mewn modd creadigol
 - datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liw, llinellau, tŷn, gwedd, patrwm, siâp a ffurf

Datblygiad corfforol

Personol

- Dylid rhoi cyfleoedd i blant:
- ddatblygu sgiliau cydsymud
 - datblygu sgiliau echddygol bras
 - datblygu sgiliau llawdriniol manwl
 - defnyddio a thrin ystod o declynnau

Cysylltiadau cwricwlwm Lloegr (Cyfnod Allweddol 1)

Celf a dylunio

- Dylid addysgu'r disgyblion i:
- ddefnyddio ystod o ddefnyddiau yn greadigol i ddylunio a gwneud cynhyrchion
 - ddefnyddio darlunio, paentio a cherflunio i ddatblygu a rhannu eu syniadau, eu profiadau a'u dychymyg
 - datblygu ystod eang o dechnegau celf a dylunio wrth ddefnyddio lliw, patrwm, gwedd, llinell, siâp, ffurf a gofod





Dylunio a thechnoleg

Gwneud

- dewis a defnyddio ystod o offer a chyfarpar i gyflawni tasgau ymarferol [er enghraifft, torri, siapio, uno a gorffen]
- dewis o blith a defnyddio ystod eang o ddefnyddiau a chydannau, gan gynnwys deunyddiau adeiladu, tecstilau a chynhwysion, yn ôl eu nodweddion

Cysylltiadau cwricwlwm Gogledd Iwerddon (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1)

Y celfyddydau

Sylfaen: Celf a dylunio

Dylid galluogi disgyblion i:

- arsylwi ac ymateb i bethau a welir, a drafodir, a gofir ac a ddychmygir
- archwilio a siarad am liwiau, llinellau, siapiau, gwedd a phatrymau
- archwilio a defnyddio ystod eang o ddefnyddiau a phrosesau
- creu a datblygu syniadau gan ddefnyddio lliwiau, llinellau, siapiau, gwedd a phatrymau

Cyfnod Allweddol 1: Celf a dylunio

Dylid galluogi disgyblion i:

- ymchwilio i brofiad synhwyraidd uniongyrchol ac ymateb iddo gan gynnwys dimensiynau gweledol, geiriol, gofodol a chyffyrddol, y cof a'r dychmyg
- edrych ar adnoddau a siarad amdanynt i ysgogi eu syniadau eu hunain

Cysylltiadau cwricwlwm yr Alban (Cynnar a Chyntaf)

Celfyddydau mynegiannol: Profiadau a chanlyniadau

Celf a dylunio

Mae gen i'r rhyddid i ddarganfod a dewis ffyrdd o greu delweddau a gwrthrychau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau. **EXA 0-02a**

Gallaf greu a chyflwyno gwaith gan ddefnyddio elfennau gweledol llinell, siâp, ffurf, lliw, tôn, patrwm a gwedd. **EXA 1-03a**

